# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - HYDREF 2015

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 21 Hydref |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Llanwnda** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Yn bresennol**<br><br>Cafwyd croeso gan y Cadeirydd Neal Williams.  Yn bresennol roedd Les Williams, Cyng. Aeron M Jones, Rhys Owen, Michelle Williams, Gwilym V Thomas, Gwilym Ll Williams, Elwyn Jones, hefyd yn bresennol roedd y clerc Caryl E Lewis. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Roedd ymddiheuriadau gan Elin Evans, Nerys Evans |
| 3. | **Datgan Buddiant** |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 16 Medi 2015**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir. |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br><br>**a) Tir ger Sain**<br>Wedi derbyn diweddariad gan Elfyn Williams, Cyngor Gwynedd, wedi derbyn holiadur yn ol gan Colin Land, mae'r broses gorfodaeth yn parhau.<br><br>**b) Pont Garreg Lwyd**<br>Dim diweddariad.<br><br>**c) Caer gors, Rhosgadfan**<br>Llythyr wedi ei dderbyn gan Ceidwad Castell Caernarfon sydd hefyd yn gyfrifol am Ganolfan Cae Gors.  Nodwyd fod y ganolfan yn cael ei hagor unwaith y mis ar gyfer gweithgareddau addysgol.  Nodwyd siom gan Aelodau fod cyn lleied o ddefnydd o'r Ganolfan ar ol cymaint o fuddsoddiad.  Gann ad oes Cylch Meithrin yn Rhosgadfan, a fyddai bosib cynnal yn Cae'r Gors?  MW i wneud ymholiadau gyda'r Mudiad Meithrin.  Hefyd nododd RO fod Ffermwyr Ieuanc yn chwilio am swyddfa ag y gallai fod yn safle posib iddynt.  RO i wneud rhagor o ymholiadau gyda'r Pwyllgor Rheoli a CEL i yrru manylion cyswllt i RO.<br><br>**d) Sedd wag Rhosgadfan**<br>Wedi ei lenwi bellach, rhoddwyd croeso cynnes i Les Williams, Rhosgadfan.<br><br>**e) Ceir yn gyrru lawr y lon o Rhostryfan i lawr am ffrwd cae du (EE)**<br>Nodwyd ar y pryd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond nodwyd fod y mater yn derbyn sylw.<br><br>f) **Hysbysfwrdd Sgwar Rhostryfan (NE)**<br>Eto, nodwyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd o ran ceir yn parcio o flaen yr hysbysfwrdd ond nodwyd fod y mater yn derbyn sylw.<br><br>**g) Parc yn Rhosgadfan (GVT)**<br>GVT am drefnu i gerdded y llwybr ei hun yn gyntaf cyn cysylltu gyda Wyn Williams, Contractwr am gyfarfod safle.<br><br>**h) GVT – Lamp Brynaber, Rhosgadfan (GVT)**<br>Colin Worth, Rheolwr Goleuo Stryd, Cyngor Gwynedd wedi holi am rhagor o fanylion o ran lleoliad, gweithiwr wedi bod allan yno heddiw ma, aros am |

| | |
|---|---|
| | gadarnhad o pa gamau am gymryd.<br><br>**i) Lamp Tan y Waun, Rhostryfan (NE)**<br>Aros am ymateb gan Meirion Williams, Adran Priffyrdd ar y mater hwn.<br><br>**j) Kerb rhydd o flaen Rhosgawen, Saron (RO)**<br>Wedi ei sortio wythnos diwethaf gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.<br><br>**k) Ffens yn Groesffordd Saron (RO)**<br>Nodwyd fod yn disgwyl ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>**Glan y wern –** Clerc yn nodi y bydd Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn llythyru'r perchnogion yn nodi fod ganddynt gyfrifoldeb i drin y Japanese knotweed.<br><br>**Arwydd Brown –** Nododd y Clerc fod cais wedi dod gan Ganolfan Llanwnda i gymeradwyo cael arwydd brown ar dop y lon yn Dinas yn pwyntio i lawr am y Ganolfan. Cytuodd Aelodau gyda'r syniad hwn. Clerc i wneud rhagor o ymholiadau, bydd angen cyflwyno cais i Cyngor Gwynedd. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim byd iw nodi |
| 8. | **Adroddiad Ariannol**<br>Derbyniwyd yr adroddiad ariannol a chytunwyd i'r taliadau:<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 20 Hydref 2015</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: 22,329.12<br>+ Llog 2.43<br><br>- Transfer i cyfrif siec 3,000.00<br>**Balans ar derfyn busnes 20 Hydref 2015 19,331.55**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: 4,120.57<br>+ 2 Gladdiad 785.00<br>+ Transfer o cyfrif cadw 3,000.00<br><br>- 101316 Cyflog Clerc - Gorff 424.40<br>- 101317 PAYE 95.60<br>- 101318 Sion Owen 880.00<br>- 101319 Wyn Williams 3,250.00<br>**Balans ar derfyn busnes 20 Hydref 2015: 3,255.57**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 20 Hydref 2015:</u>**<br>Cyflog Clerc Hydref 424.40<br>Cyllid y Wlad Hydref 95.60<br>Hacker Young 354.00<br>Twt a Thaclus 550.00<br>Canolfan Llanwnda 10.00<br>**Cyfanswm 1434.00** |

| | |
|---|---|
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Hafod Owen, Rhosgadfan – Dim sylw<br><br>Nododd Cyng AMJ fod cais wedi bod gerbron Pwyllgor Cynllunio y Cyngor yn ddiweddar sef ail-gais adeiladu 24 o dai tu cefn i Mownt, Dinas. AMJ a nifer o Aelodau eraill wedi gwrthwynebu gan fod yr amod wreiddiol i roi £36k i'r gymuned ddim wedi ei gynnwys. Bydd angen pwyso ar Cyngor Gwynedd i sicrhau fod yr amod hwn yn cael ei gynnwys. Byddai yn golygu arian i'r Ysgol a hefyd tuag at gwneud cae chwarae i Dinas. Clerc yn nodi nad oes dim wedi cyrraedd y Cyngor Cymuned ynglyn ar cais hwn a bydd yn gwneud ymholiadau.<br><br>Hefyd nodwyd pryder gan AMJ fod lefel capasiti ysgol Felinwnda wedi ei godi i 57 plentyn, nid oes lle i cymaint o hyn o blant. Bydd angen gwneud ymholiadau ynglyn ar rhesymau tu ol i hyn a sut gellir cyfiawnhau codi y lefel capasiti pan nad yw'r safle yn addas i ddal cymaint o blant. |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br><br>**Her Gwynedd** – Nododd y Clerc fod holiadur a chyfarfodydd cyhoeddus yn digwydd ar hyn o bryd ynglyn a thoriadau posib gan Cyngor Gwynedd. Pwysleiswyd pwysigrwydd cymryd rhan a llenwi'r holiadu<br><br>**Biniau Halen** – llythyr wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn nodi na fyddent yn darparu biniau halen o Ebrill 2016 ymlaen gan nad yw'n ddyletswydd statudol. Cynnig i'r Cyngor Cymuned gymryd y cyfrifoldeb ymlaen a thalu oddeutu £160 i gyflenwi pob bin dros y Gaeaf. Gan fod 13 bin o fewn y gymuned, byddai'r gost yn golygu o leiaf £2,000 y flwyddyn i'r Cyngor Cymuned a ni ellir cyfiawnhau y gwariant gan y byddai yn gyfran uchel o'r gyllideb flynyddol. Clerc i lythyru yn gwrthod y cynnig a nodi siom a phryder na fydd y Cyngor yn parhau gyda'r ddarpariaeth.<br><br>**Hacker Young** – ffurflen flynyddol wedi ei dychwelyd, pob dim yn foddhaol. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>EE – Enw Glynllifon<br>LW - Rhos isaf – Craig y Don, troi i fyny am Isfryn, coed wedi tyfu dros y lamp yn fanno.<br>LW – o flaen y Neuadd – cae chwarae – lamp yn mynd allan yn aml – 3 noson ar o lei gilydd – wal wrth y Neuadd – plant wedi rhoi cerrig ar draws y lon, dros ffordd ar ysgol, pwy biau'r darn yna or wal, cerrig wedi disgyn ers blynyddoedd. Dwr yn dod ir lon. Wal – pwy bia hi? Wedi collapsio, angen codi gyda'r cyngor.<br>GLLW – Neb wedi torri gwrych wrth pen y ceunant. Pwyllgor y Neuadd – angen llythyru.<br>EJ – sbwriel ar y lon wedi gwaethygu.<br>GVT – cattle grids ar agor, angen mynd ar ol meirion eto i weld beth sydd yn digwydd gyda hynna.<br>RO – oes modd cael double yellows lawr o leiaf at y Neuadd fel fod bobl ddim yn parcio, troi lawr am yr hen Neuadd yn y junction, pobl yn parcio, troi ar y main road.<br>NW – Jerico, yn y ffridd - Rhosgadfan, eisiau double yellows yna, ceir yn parcio tu allan y llwybr, peryglus.<br>EE – llythyr efo newid enw wynborne o glynllifon.<br><br><br><br>**Dyddiad: 18 Tachwedd 2015** |

| | |
|---|---|
| | **Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan**<br><br>**Cytuno i beidio a cyfarfod ym mis Rhagfyr.** |